UK Statistics Authority
1 Drummond Gate
London
SW1V 2QQ

Ffôn: 0845 604 1857
E-bost: authority.enquiries@statistics.gsi.gov.uk
**Gwefan: www.statisticsauthority.gov.uk**

**Cadeirydd Awdurdod Ystadegau'r DU, Syr Andrew Dilnot CBE**

Y Gwir Anrh. Francis Maude AS
Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet
70 Whitehall
LLUNDAIN
SW1A 2AS

27 Mawrth 2014

Annwyl Francis

**Y CYFRIFIAD A DARPARU YSTADEGAU O'R BOBLOGAETH YNG NGHYMRU A LLOEGR YN Y DYFODOL**

Ym mis Mai 2010 a chyn Cyfrifiad 2011, gofynnodd fy rhagflaenydd, Syr Michael Scholar, i'r Ystadegydd Gwladol a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) adolygu'r broses o ddarparu ystadegau o'r boblogaeth yn y dyfodol er mwyn llywio'r penderfyniad ynghylch y cyfrifiad nesaf, a fyddai'n cael ei gynnal yn 2021 yn ôl y drefn arferol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae SYG wedi cynnal rhaglen ymchwil eang yn ymwneud â ffyrdd newydd o gyfrif y boblogaeth yn ogystal ag adolygu arferion mewn gwledydd eraill (Rhaglen Y Tu Hwnt i 2011). Mae SYG wedi ymgysylltu ag ystod eang o ddefnyddwyr, sylwebwyr a chyrff cyhoeddus ledled Cymru a Lloegr, ac mae wedi gweithio'n agos gyda'i chyrff cyfatebol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n cynnal eu hadolygiadau tebyg eu hunain. Mae SYG wedi ymchwilio i farn y cyhoedd am ddulliau gwahanol o gynhyrchu ystadegau o'r boblogaeth[1] ac yn ddiweddar mae wedi cwblhau ymgynghoriad cyhoeddus tri mis sylweddol.[2] Yn olaf, comisiynodd SYG adolygiad annibynnol pwysig o fethodoleg wedi'i gadeirio gan Chris Skinner, Athro Ystadegau yn Ysgol Economeg Llundain, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013.[3]

---

[1] http://www.ons.gov.uk/ons/about-ons/who-ons-are/programmes-and-projects/beyond- 2011/beyond-2011-report-on-autumn-2013-consultation--and-recommendations/public-attitudes-report.pdf
2 http://www.ons.gov.uk/ons/about-ons/who-ons-are/programmes-and-projects/beyond-2011/beyond-2011-report-onautumn-2013-consultation--and-recommendations/report-on-public-consultation.pdf
3 http://www.ons.gov.uk/ons/about-ons/who-ons-are/programmes-and-projects/beyond-2011/reports-and-publications/methods-and-policies-reports/beyond-2011--independent-review-of-methodology.pdf

Mae Bwrdd Awdurdod Ystadegau'r DU yn fodlon bod SYG wedi cynnal adolygiad cyhoeddus trylwyr o'r broses o ddarparu ystadegau o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol ynghyd â'r opsiynau ar gyfer y cyfrifiad nesaf.

Cadarnhaodd ymgynghoriad SYG fod galw parhaus ymhlith llywodraeth, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, byd busnes, y sector gwirfoddol, academia a dinasyddion unigol am wybodaeth fanwl am ardaloedd bach a phoblogaethau bach sy'n deillio o'r cyfrifiad a gynhelir bob deng mlynedd. Eto i gyd, gwnaeth hefyd gadarnhau bod mwy o alw am ystadegau mwy mynych ac amserol rhwng cyfrifiadau, a allai ddeillio o ddefnydd ehangach a mwy effeithlon o'r data gweinyddol sydd eisoes yn cael ei roi i lywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach gan unigolion, yn ogystal ag arolygon rheolaidd.

Ym marn Bwrdd yr Awdurdod, mae cryn fuddiannau posibl yn gysylltiedig â defnyddio data gweinyddol ac arolygon i ategu'r cyfrifiad traddodiadol a darparu ystadegau o'r boblogaeth yn y dyfodol. Mae Bwrdd yr Awdurdod yn llwyr ymwybodol bod yn rhaid i'r cyhoedd fod yn sicr ynghylch preifatrwydd a chyfrinachedd y defnydd a wneir o ddata gweinyddol at ddibenion ystadegol. Felly, efallai y bydd y Senedd am ystyried mesurau diogelu cyfreithlon priodol mewn unrhyw ddeddfwriaeth a geir yn y dyfodol fel bod modd rhannu data yn y fath fodd at ddibenion cynhyrchu ystadegau swyddogol, fel y rhai yn *Neddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007* sy'n cwmpasu'r defnydd cyfredol o ddata at ddibenion ystadegol.

Mae'r Ystadegydd Gwladol wedi dod i'r casgliad bod y galw am gyfrifiad a gynhelir bob deng mlynedd yn dal i fod yn gryf a bod cefnogaeth gyffredinol i gynnal y cyfrifiad nesaf ar lein ar y cyfan (gyda help a chefnogaeth ar gael i unigolion nad ydynt yn dymuno neu na allant ymateb yn y ffordd hon efallai). Hefyd, daeth yr Ystadegydd Gwladol i'r casgliad bod cefnogaeth i'r defnydd cynyddol o ddata gweinyddol at ddibenion cynhyrchu ystadegau o'r cyfrifiad ac ystadegau eraill o'r boblogaeth, a gwella ystadegau blynyddol rhwng cyfrifiadau. Mae'r Ystadegydd Gwladol wedi argymell y dylid gwneud y defnydd gorau o bob ffynhonnell, gan gyfuno data o gyfrifiad ar-lein yn 2021 *a* data gweinyddol ac arolygon. Mae Bwrdd yr Awdurdod yn derbyn ac yn cefnogi'r argymhelliad hwn[4] ac rwy'n ei gymeradwyo i chi.

O dan *Ddeddf Cyfrifiad 1920* erys yn fater i'r Llywodraeth a'r Senedd bennu p'un a ddylid cynnal Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2021 a phryd. Yn ddiweddarach eleni, bydd yr Awdurdod yn cyflwyno amcangyfrifon ariannol manwl sy'n ategu ein hargymhelliad, a byddaf yn ysgrifennu atoch eto ar y cam hwn.

Yn gywir

**Syr Andrew Dilnot CBE**

[4] http://www.ons.gov.uk/ons/about-ons/who-ons-are/programmes-and-projects/beyond-2011/beyond-2011-report-on-autumn-2013-consultation--and-recommendations/national-statisticians-recommendation.pdf